

AwyLas

(20161227)



Hyn o hin i'r galon wnan am eillad
Drwy'r cymylau arian
I'r ffurfafen wen uwch ben ban
Yn yr haul gyda'r wylan.

(Rhyddid yr wylan yn Rhuthun!)

Anna

(20161226)

Fel gem prin, llygad India - amnyddawn,
Eniawn, wyf, fwy'n Anna;
Cyfeilles gyne, gwena'n
Llawen, myn heulwen, mwyrnal!

(Cyfeilles arall yn gadael o'r gwaith, y tro yma o Fangaluru.)

GwasanaethNadoligPendref

(20161220)

Nadolig, cwrdd yn deulu - cyfeillion
Ceinion crud y canu
Llawen, chwerrhin a gwenu
Yng ngolau'r bwrdd; cwrdd y cu.

(Gwasanaeth Nadolig hyfryd ym Mhendref eleni.)

Arie

(20161217)

Enyd aur atgofion da - meistr doeth
Amsterdam yn cwpla:
Hedd a hin wrth hamddena,
A miri mwy, Meruma!

(Cyfaill arall yn Amsterdam yn ymdeol.)

Carol

(20161216)

Gwyl ei neges galonogol a gwyl
Galwad ei dyfodol;
Distaw'r alaw ar ei hol:
Min cor yn hwmian Carol.

(Y 'Dolig yn dod, a'n hysgrifenyddes Carol yn ymdeol.)

BancYNatWest

(20161213)

Anerbyniol yw'n trefol tranel Nid hawl
Gwyr Nat West yw dianc!
Galw mae hen ac ifanc
Am ddyfodol buddiol banc!

(NatWest yn cau yn Rhuthun yn ol y son, a'r gwrtwynebiad yn dechrau.)

NadoligLawent


(20161212)

Trigo wyf o'm natur gain - angof fng,
Fangau'n ddiwlyfain,
Dydd dyfnhau'r briviau fel brain
Yw gwyl pigio'n y galain.

(Rhedeg a gweld celain dafad yn bryd blasus i'r adar. A meddwl yn ehangach am fywyd.)

Cyngor

(20161211)



I braff lys, i buro fflam yn y gwyl
A gallu er gwella
Mewn pob ysbryd, cymryd cam
Dydd fel derwydd yn Durham.

(Mynd i gyfarfod ymgynghorol yn y brifysgol yn Durham.)

PêldroedNosLun

(20161206)

Mynd sydd rhaid, fel ffyliaid ffol - awr o fêl
Corfoledd gorfennol;
Ffawd bechgyn hyn y ffwtbol:
Oed hun - a chwarae'r tu ôl!

(Mynd yn hen, ond mae rhai yn dal yn hyn!)

CyngerdFlynYddol

(20161206)

Am wefr "if I was a rich man" - oedfa'r
Adfent, llond yr henllan;
Prydydd newydd, John Ieuan;
Am gampwaith, gobaith ar gân!

(Hwyl ar y canu nos Sadwrn!)

YnYBon


(2016129)

Melys flas cymdeithasu - enyd aur
Penderyn yn canu;
Talwrn swpera'r teulu;
Blas arbenig cwmni cu.

(Mynd am ginio 'da chefnidrid y Rhondda.)

GG

(2016126-27)



Cwynfe'r bore, lan y banc
Yn dawel, da yw dianc
Hyd erwau oer y Daren,
Cofio cwmni i godi gwên
O ben gwaun, banau gwynion
Y gorwel yn dawel don.

Awen ddelliog, brithiog brau'r
Hydref ar lôn y cledrau
I gol llys o'r blys a'r bloedd:
Min afon, dyma'm nefoedd.

(Yn GG am y penwythnos.)

CoconutGrove

(20161125)

Anogaeth cwmni agos - ofn dal haint
Findalwr yr achos;
Tân 'da'r bara naan un nos,
Acwn y gelli gocos!

(Mynd am bryd Indiaidd yng Nghaer 'da bobl o Ddenmarc a blasu Findalwr!)

Niwtrino

(20161123)

Antur unig niwtrino, nes gweled
Osgiliad tra chysn;
Myn spec, try blas electron
Yn fiwon, yn daon don!

(Darllen am osgiliadau niwtrino neithiwr.)

StormAngus

(20161122)

I gerydd hallt storm gwir Dduw - i ganfod
O'i gwynfyd mewnd distryd;
Nefyn aur min afon yw
Lôn y dail yn y dilyn.

(Rhedeg neithiwr a'r bore 'ma mewn afonydd o ddaill!)

ArHydYNos

(2016119-21)

Hedaf i wyrth o brydferthwch - yno
Mai twyllor tywyllwch
A nofio' lyr nefol lwch
Y teulu mewntawelwch.

Gwyn a siriol gwên seren - si' llewyrch
Yn lliwion daearn;
Gwên ddistaw hardd a'm hawen
Hyd y nos, wrth fynd yn hen.

(Canu'r alaw werin yn y côr nos lau, a meddwl - am y tro cyntaf bron - am ystyr y geiriau ... a'r llanast presenol ... Trump a Brexit, a ... henaient!)

DynYWal

(20161109)

Hyll yw ein ffawd ar goll'i'n ffydd - oes trais
Trump trist ydyw'n cystudd;
Syrffed bom a twled bydd
Hwylliau eofn a'rywydd.
(Y twpsyn yn enill!)

Cofio

(20161108)

Gwaith bywyd fydd cymryd câr i wella
Wedi colli cymar;
Nid gelyn ydyw galar,
Na deigrin, na geiryn gwâr.

(T adre'r penwythnos diwethaf yn SIARF am G, a Sul y Cofio'r penwythnos 'ma.)

QIARF

(20161031-1102)

Yn agos, egn'r negydd - ôl rheswm
Paul Dirac fel gwawrddydd;
Dyma ias byd y meysydd,
Braslan ar wrth-ronyn rhydd!

Estyn o faths Einstein a fydd cyffraith
O waith damcaniaethydd;
Gweld patrwm cae'r cwantwm cudd
Yn nod gwrth-gwentydd.

(Ceisio deall "quantum field theory" a ddechreuwyd gan Paul Dirac, sy'n uno'r cwantwm â pherthnasedd arbennig!)

Laeth


(20161031)

Hen rhigwm, patrwm pwrmpio o'r diden,
Lliw hufen y llifo;
Llaimad, gwydraid y godro
Megis maeth, lluniaeth y llo.

(Rhedeg drwy'r ffermydd â sychedul!)

Dail

(20161028)



Hyd nefânt, o'r goeden fyw i firi
Lliferiant unigryw
Neges dail, megis dilyw'r
Aneirif aur: hydref yw.

Cartrefle

(20161024-26)

Â chof llanc, dianc i'r de - pentyndod,
Hanfod perffafth wynfy;
Eli hael gorfennol le
Yw'r ty ar lanau'r Tawe.

Cans dyma'r man lle'm ganed - col cynil
Cil cwm y glo caled;
Taren'r tir tirioned,
Oriol hardd fy mynd ar led.

(Yn GG.)

Lliw

(20161020)

Wyl unig, teithiaf fynys - chwiliat nerth,
A gwerth y llwybr gwarthwch;
Mor wymp, caf anghoffio'm mrys
O ganfod lliwiog enfys!

(Enfys i'm dihuono o'm ffiblan gwirion!)

M23

(20161016)

Er twrio, er treiddio i'n tras yng nghyrol
Fendithiol gymdeithas;
Er gweld y forwyn a'r gwas,
Bu rhaid mynd i'r briodas.

(Teithio lawr i Crawley i ddatihlu mrodas mab cefnither.)

GwigYMôr

(20161013)

Swrealiaeth o'r traeth yw tro'r llafnau
Llyfnion, da egwyddor;
Cyfyl engyl dan angor
Yn rhesi mud dros y môr.

(Melynu gwynt yn y môr ger Llandudno.)

Ffow!

(20161011)

Â chodwm, bri i'r parchedig - a bai
Anibych dieffig!
Gweithred bachan rhwystredig
Â'r brawd Martin ar y brig!

(Baglu M. yn y peldroed neithiwr!)

Golau

(20161010)



Mae'n hysbys, dyrys yw'r daith - mewnd gwendid,
Nid oes neb yn berffaith;
Y mae'r Oen a'i falm ar waith
I bawb sy'n byw heb obaith.

(Newydd trist yr wythnos diwethaf.)

Llandudno

(20161010)

Godidocaf ffurfafen - orig deg
Craig Y Don a'i heulwen;
Y gwasnaeth, lluniaeth a llen
Gwynall, dros Fod Ysgallen.

(Cinio crand.)

Teithio

(20161003)

Mynd i Houston drwy Lundain - min cynar
Manceinion yn arwain
At godi fel teg adain
I'r lloer o wastadedd llain.

Yn dyst i fyd didodur - yng ngolau
Gau prifddinas gwewyr;
Nos yw pos cyfalaf pur,
Du yw Houston dlystr.

Awyren daw i buro fwylofain
Cyfalafol heno;
Smotyn gwyn uwch bryn a bro
A gwawr rheswm hen greso.

(Taith i'r UD, ac yn falch o ddod adre!)

Gwlaw

(20161001)

Swyn dyfroedd mwyn pen mynydd - a'u nodau
Yn nediol'n llawn awydd;
Rholiant a rhedant yn rydd;
Gwyn yw hynt y crogentydd.
(Gwlaw mawr yn GG.)

Strach

(20160930)

Nos dial ar dudalen - nodiadau
'Ngwyll' ffagl tywyll ffuglen;
Duwch honiad a chynen.
A llyr afiaith gobaith gwên.

(Halabalw yn y gwaith.)

Denmarc

(20160928)

Diolchaf, o bertaf borth - daw anrheg
Coed Enrum yn gymorth;
Cysur hafn arwyr y North
Yw Vedbæk, tecaf adborth.

(Cysgu'r nos ar lan y môr yn Vebæk, hafan cychod bach i'r gogledd o Copenhagen. Coedwig, llyn a phlasdy crand yw Enrum.)

YnYNos

(20160926)

Rhydd y weddi awr ddi-ddos mwyn A-men
Y myned, drwy'r aros?
Egyr cil y neus agos
I'r nef yng ngoleuni'r nos.

(Meddwl am G, a K yn gweithio nos am y tro cyntaf.)

Noll'rCol

(20160925)

Nid hawdd yw bathu brawddeg i gelu
Galar diwedd adleg,
Antaf tical gwyliau teg
Yn cilio'i ddwndwr coleg.

(T yn dychweld i Abertawe.)

RhwngYDdwyAfon

(20160922)

Am bleser, amser ymson ym miri'r
Môr, ym myd eithafon;
Rhodd yfed o'r daw'r awon,
Blasu bri y Dee a'r Dion.

(Yn Banchoy.)

I'rCogledd

(20160921)

Es iffwrdd a chroesi'r ffin - ehedais
Dros wlad y Gododdin,
Agoriadol Gaeredin
A bore da, Aberdeen!

(Yn Aberdeen!)

GiantLiv


(20160920)

Awchu gwefr cefn beic bach gwyn - eli hael
Cawr "Liv" yn gychwyn,
A dwli seiclo'n dilyn
Y tâl fydd cyhyrau tynt!

(K yn cael beic newydd.)

Hydref

(20160917)




Rhin golau'r bore'n gweithi - lliw hynod
Pen llanwr cyfnos;
Gafael oer gaeafol li';
Ôl ymadael yw Medi.

(Dod adref o Gaerhirfryn, a'r hydref wedi cyraedd.)

Cerdded

(20160911)



Wyt wyrth ger y grognant wen - tân y rhiw,
Lliw ger y dyfroedd llawen;
O felys griafolen
Yn y brwyn, gysgodol bren.

Bryn egwyl, bri unigedd - y gorau,
Banau Sir Gâr hywedd;
Dyma enyd hyfryd hedd:
Huan ac afon Giedd.

Rhodio hyd glanau paradwys - oedi,
Peryddio wrth orffwys,
Yn llafar llon yr arllwys;
Simsanu i ganu'r Gwys.

(Cerdded o'r afon Tawe, dilyn un o'r crogentydd lan i Lyn Y Fan Fawr, ac o amgylch Llyn y Fan Fawr, dros y banau i Lyn Y Fan Fach, a dilyn afonydd y Giedd a'r Gwllt ar Mwynt am oriau unol i Gwmtwrch, Ystalyfera a Godre'r Graig. Dros pymtheg milltir. Nefoedd.)

DoCech

(20160825-20160908)



Duw, ymhen awr, dyma ni
Yn y byd, bron heb oedi.
A buddiol iawn yw bodd
Yn nrama deg Normandi;
Fel adar man drwy Fflandrys,
Yn hel tref Brwsel a'i brys,
A choffau palasu ar
Gent, untro'n llaw'awch antur.

Tref wiw, a'i lliw a'i llen,
Canwn yn iach i Aachen,
Hoffir'r coffi, trwsio'r car
Yn A.T.U, hafn teiar.
O'r llif, coron yw Skrivan
Yn nrama aur yr adar man.
Cawn fwynhau profliadau'r pren
A rhanu rhin yr onen;

Hafan deg atgofion da:
Bri encil glan Berounka.
Drwy'r wis i'r egwysig tyr
Am seiat mewnd maes awyr;
O'r hedd, i fywyd ar râs
I wledd anwyll y ddinas.
Heulog wawl ar betal gwyn
Hir oes i ffrwythau'r rhosyn.
Hin a blas diwrnodau'n blyg,
Rhodd yw gwylly gardd y gellyg.

Eden hardd i'n rhediad ni
Yw enyd fwyn Podvini.
Eli hopy's ha'r 'Strahov,
Nid chwernw'r cwrw i'r cof.
AWN o bwmpas dinas dyn
I bethau hap y bywthyn,
Swm swper yng ngardd Herman,
Canu'r teulu ger y tân.

Ac awr colli'r hen gwrcyn -
Daw hedd y bedd i bob un.
Yn y gwair mae gair i gall,
Cyngor yn osgo'r ysgall,
Ffydd ac adain rydd sydd rhaid
I hwylio fel gwenolliaid,
I droi'n ol o'r byd i'r nef,
O grwydro, gyru adref.

(Ymweliad blynyddol â'r Weriniaeth Tsiec.)

Mwamed

(20160822)

Heb wallt mae hwn yn bolltio - nid oes tric,
Nid oes trac i'w goncro;
Aflonydd, gwaith diflino
Coesau chwim ein milgi, Mo!

(Mo Farrar yn enill eto, ac eto!)

AmFlas!

(20160820)

Lawr i barhwr o berlau - mwyaara,
Mwyaara am oriau;
Melys, nwyfus yw mwynhau
Blas tapas ar y tipiau!

(Mwyaara yn drwch ar y tipiau yn GG.)

Aur!

(20160819)

Lion yw'r galon yn gweled enyd aur

Tai-cwan-do y merched;
Â'i chic, gras a greddef; sicred
Dewis gorau'r Jonsis, Jade!

(Jade Jones yn enill aur am yr eilwaith.)

PenBlwyddyn (20160818)

Gwên canwyll heno, gwawl yn bugeilio,
Llusern i gofio llais yr hen gyfaill.
O fam gwynaf fur, haul dad fel y dur,
Lliwiau d'afael pur, yn lledu fel paill.
Ffrwd anghyffredin, yn wyrth o chwerthin
O argae Erin, yn fôr o gariad.
Paid i'r enaid rhydd yw hedd diwedded dydd
Yn gynig o ffydd, a gwên o goffhad.
Canlad, goleud o garlad wyt Gwern,
Yn nodau dy lais, a thán dy lusern.

(Bron i ffwyddyn ers collni G.)

Heilyn (20160814)

Deuwn i aros i Borth Dinorwig,
Penllanaw awydd, llonydd pellenig.
Lle hafaidd, euraidd orig - dinlle byw
A digon ydyw, mae'n fendigedig!

(Aros 'da K a Ch yn y Felinheli.)

MyndFaeicio (20160811)

Haf acw, awn i faeicio - mi wibiwn,
Fi a'r mab, a dringo,
Dringo'n ddau dros frigau'r fro
Ac adref cyn y godro!

Ein bwriad, troi dwy gadwyn aur o Fôn
A'r Fenai i Golwyn
A'r Rhyi, â phedair olwyn
Chwim yn hogi miri mwyn!

(Meddwl mynd i faeicio 'da T, ar y penwythnos.)

GerYLLI' (20160810)

Am drysor yw angori ym mynwes
Ein Menai a'i glesni;
Breuddwydion llon ger y lli:
Heilyn a'r Felinheli.

(K a Ch yn symud ty.)

Diolch! (20160808)

Hen ben ymhob trybini - un addfwyn
I leddfu pob drysni;
Chwimed, gwyned 'di Beti,
Hael ei charedigrwydd hi.

(Gair o ddiolch i B am drefnu organydd arall!)

GerYFafwys (20160809)

Tu draw i ddinas awen - neuaddau,
Hoff eiriau'r offeren;
Eryd iach yn Rhydychen:
Cywdd o lonydd Magdalen.

(Treilio'r bore yn crwydo meysydd Coleg Magdalen yn Rhydychen.)

Aneirin (20160807)

Pencerdd, daw d'angerdd fel dwr byrlymus.
Gweddus arch-gwyddw'r,
Karadog, wyt eiriog wr;
Aneirin, ti yw'n harwr!

(AK yn enill y gadair.)

Ashley (20160804)

Gorau gwas â gras a grym - un parod
Mewn perygl, ein burum!
Pen ar gyfnod lion a llym,
Ein helw cadw Gwilym!

(Edrych fel fod Ashley Williams yn aros 'da'r Elyrch.)

MyndAmWâc (20160806)

Awr esgyn lan i'r ysgol
Ac yn nes at dyle'r Gnoi;
Gorau gwaith, taith i ben twyn
I weld siop Wncwl Maldwyn.
Nawr hanes gwaith Tareni:
Ystyr llafur ger y lli:
Dyma fro golutod len
Er eillio Häen Friallen.
Llywiau bro y pyllau brau
Yn adrodd hyn't hen gledrau,
I'r bras hylt camlas y cwm:
Wyneb arloes oes bwrllwm,
At y gwaith ger Tawe gôn:
Oedi ger Ynyscedwyn,
Aneidd heddw'r Gough i'r ddau'n
Erfyn am gwrw'r Arfau.
Odl hanes yn dadlenu'n
Cân cloc Tic-Toc a'r gwaith tun;
Dwy awr rydd, cof mynd am dro'n
Ffenestr ar Bantffynon.

(Mynd 'da J am dro ar hyd yr hen rheilffordd a'r gamlas yng Nghwm Tawe. "Primrose Seam" yw'r enw ar haenen o lo caled sy'n rhedeg drwy Gwm Tawe - gyda'r glo caleg gorau, yn ôl y sôn.)

YDihryn (20160729)

Deffro ar lawr y dyffryn - dihiryn
Hyderus, a'r methu dilyn
Diawlio, yn methu dilyn
Ôl dihangol heriol un.

LlyfrauDoethineb (20160727)

Deor her mewn dihareb, pori gwaith
Pregethwr a'i dysteb;
Nis chwylwyd, anafwyd neb
Â than o ffagi doethineb.
(Darllen llyfr y Pregethwr.)

ArYMoelydd (20160726)

Moelydd â'u llonydd fel llyw - hin sidan
Prynhawn Sadwrn ydyw,
O lewyrch y grug gloyw,
A threm ar goetre Moel Gyw.

(Mynd 'da R am dro o Foel Gyw adre.)

Ymweliad (20160725)

Rhuthr o hiraeth yr awron, 'di mwynhau
Cynau'r hen amcanion;
Ac felly, mwyn gyfeillion:
Byth na thewch, dewch eto'n don.

(Cyfarchion i'r ymweliwyr!)

AtnebJob (20160724)

O dad, mor gymeradwy yw patrwm,
Wedi hirwm arlyw
Duwddod anwybodadwy.
Tawaf, ni heriaf yn hwy.

Haf (20170723)

Hiraethaf eto'n Rhuthun - fe ganaf
Gwyn mis Awst bob blwyddyn:
Her i Dduw o'r broydd hyn
Am haul a gwenith melyn!

(Cymylog eto.)

Cynhemlad (20160722)

I fedu fy nyfodol, mae angen
Grym engyl gwarcheidol
Hafn y nef, âf yno'n ôl,
Âf adref i'r anfeidiol.

(The angels are lost in perpetual contemplation of an infinite glory.)

Us (20160721)

Echdroriad pechadurus - adfeilion
Newyddion anweddu;
Ôl llwyd o'r coeth a'r moethus,
Gweled ofn ar wedd gwlad Us.

(Englyn olaf am Job am y tro!)

RLIAO (20160719)

Teced â soned ei sain - mae rhywbeth
Am rebel mor gywain:
Odl gloi y boi Ab Owain,
Barti Ddu y canu cain!

(Joio 'da R neithiwr.)

Huw (20160719)

Angerdd ym mēr ei gerddi - oldau aur
Hydol win ei weddi;
Cyn o ddyn â'i farddoni;
Awen goeth y Huw McKee!

(Stomp decstio gyda H a RLL)

Gwresdon (20160719)

Dym wawr dydd uwch dymheredd - am wres
Ac am radd o lesgerdd;
Dydd a'i drymaidd hafaidd wedd
Yn erfyn toc am dyfrfedd.

(Crasboeth yn Rh.)

Job (20160718)

Yn chwerwder wyneb cerydd - unig wyt
Mewn gwatwar a chystudd;
Daw nef o gadw'n uffudd?
Ai hyder ffwl cadw'r ffydd?

(Gorffen y sgwrs ar gyfer dydd Sul.)

Felinheli (20160717)

Gwynfyd y bynydd baicol - yng Ngwalia,
Rifera arforol;
Angori'm myw llongwrol,
Aed i'r Felinheli'n ôl.

(K a Ch yn symud ty.)

Yfory (20160715)

I ladd a chledd â gwledda - daw y BRICs
Wedi Brexit lli paw;
I'n treisia, i fam Teresa:
Mygid hoff lendid â'i phla.

Deall? (20160713)

Ar ynys glwyfus, o glyw y trion,
Gweld estron fal distryw,
Rhin hagrwch mor unigryw:
Dallu dyn â deall Duw.

Braw wynebu'r anobaith - oed afiach,
Oed uffach gydeffait'h;
Ond hardd ei lun dyn ar ddaith
Heb offren tan yn berffait'h.

(Meddwl am ddiodefaint Job, a'i ystyr.)

Brexit (20160712)

Diurdas gweithred diarddel ofnus
Cyfnod aniogel;
I'w lasoed, a ddoed a ddél
I'w ifanc, tranc gwrthryfel.

(Creuwyr y gwrthryfel - Johnson, Gove, Farage, Leadsom - i gyd wedi diflanu.)

Dilyw (20160711)

Llwyd unswydd ebrwydd wybren - yn y gwlaw
Drwy'r glyn, dros hen Dawe'n
Achub awr i'r waun uwchben
Y dwr ar lethrau'r Daren.

(Gwlaw mawr yn GG.)

Job (20160709)

Bore Job, byw bara jam rhodd y diawl
Trodd y dydd yn fedlam
Dirdynol, anuwiol nam;
Ar cwmni'n holi: Paham?

(Rhoi sgwrs am Job yn y capel cyn fôn hir.)

OenDuw (20160709)

Yn alltud mewn byd sy'n hollti o weld
Phwyf odeb a thlod;
Rho i'n fones, a rhwyma fi
Yn d'awen, Agnus Dei.

(Canu Agnus Dei gan Chilcott yn y côr neithiwr.)

YCochion (20160707)

Wedi'r chwys erys hiraeth am eiliad
Galwad buddgoliaeth;
Ond heno, hen wylo aeth
Yn wên, gwrid ein wuaniaeth!

(Cymru'n colli, ond yn enill hefyd!)

Mynd (20160705)

Troi'n nef aur yn estron fan, yn aberth
I'r anobaith aflan
Sy'n corddi'n y werin wan:
Cân y gwyll, cynig "Allan".

(Meddwl am y Brexit bondigrwybill!)

GweldYMôr (20160703)

O lys dysg, gwêl ddyfriol stôr o egni
Amsugnod fel gwylodd;
Cychedd, twymed y tymor:
Grym haul yn gwresog i'r môr.

(T yn mynd i gael profiad gwaith i wlad y Sais!)

YDreigiau (20160702)

Ethriad doeth â thri tu ôl - adenydd
Â dawn y mosod;
Elmion ceinion y canol;
Obry'r gallu'i greffto gôl!

(Cymru'n maeddu Belg!! Rown cyn-derfynol nesaf!!)

Toscana (20160617-27)



Heddiw pos hewlydd Pisa - ac wedyn
O lewyn fel lucca
Egyr lôn i'n Shan-gri-la;
Ynys y gwîn - Toscanal!
Dirgeffan ein hafan i!
Hynafus hwy! Casa Eli!tt
Eden aur ein seithfed ne,
Hafod profiadau Pieve.
Un eiliad fwy'n i'r fadfall
Hyd y bont, ar dwr di-bail;
Sgwyd y ciwd a'r ffrwd ar dro:
Sawr alaw'r Esarudo,
Lawr y cwm yn awr â ni
I weld tref Garibaldi.
Eiliadau ias gorau sgor
Erioedd clywof ar radïo;
Rhaid clodfodi cewri'r co' -
Cewri tim Cymru'n curio!
Bryd uwch crybyn Sumbra dal;
Nofio'r nef, rhanu afal.
Lle'r dirgel Machiavelli:
Cyflawnhad mam brad yw bri!
Dilyn cynllun brym a bro
Llôn nefyn Castelnuovo.
Y dorl yn dewis darfof - cam i'r gwyll,
Tro hylt i ben trallod.
Ebrwyddi unigrywdd di-nod:
Heb Undeb, anibendod.
Gwalia, collasom ein gilydd - wyt gaeth
I anogaeth negydd;
Toc gwel cymaint cywilydd
Bryd cyfogydd Cymru fydd!
Antur Grotto del Ventro:
Chwaeth odidog ogo' goch.
Erwau hwyrol sêr arian,
Hafod dawns y pryfed tian.
Ffrwd sidan Pieve Fosciana'n nofio'n
Nghangnefedd Toscana;
Ffynon win, Garfagnana;
Anian pau'r huan, parhal!
(Gwyliau yn Noscana!)

Hoole (20160615)

Acw mae'r llwybyr beicio - i'r diddïg
Gwledd unig sydd yn go;
Oed o gof ffrwd o gyffro,
Ynysgar arbenig bo.

(Cysgu yng Nghaer wedi cyfarfod gwaith.)

MewnUndeb (20160614)

Un cip sicr o'r copa serth - cam cadarn
Ag unfarn - cam anferth;
Ar y foel, cynnwng goelcerth
O ateb - mewn undeb nerth!

(Cymru yn maeddu Slovensko 2-1 yn Euro2016)

Stomp (20160611-12)

Ynom, deffro mae'n dyffryn - eli'r iaith
Ar waith yng Ngwyl Rhuthun:
Crefu ongl, crafu englyn;
Cynganeddu dathlu dyn.

(Stomp Gwyl Rhuthun yn dod!)

Cyfarchion (20160609)

Yn nos gwaeledd anisgwyl, mynd adre'n
Y bore dy beryll;
Bydd yn eiddgar, hawlia'r hwy!;
Llona, fy nghyfaill anwyl.

(Cyfarchion i R.)

Egwyddor (20160608)

Ai dewin oedd Feynman dywed? - ol greddef
Lagrange ydyw gwleed
Taw nodd cudd y meysydd med
Rhuthr o isafu' weithred.

(Trafad egwyddor isafu gweithred yn y gwaith a gyda T, egwyddor sy'n treiddio i bob cwr o ffiseg.)

Gartref (20160603)

O ranu trem yr onen yn lledu
Obry ar yr wybren;
Clas gwellog a'i Glwyddog len
Rhydd y wawr ym mhau'r dderwen.
Atgof aur, wyt gyfarwydd - ail-egyrr
Hen lygaid yn sicrwydd
Heulwen haf a'i harddaf wydd
Ym mēr y sycmorawdd!

(Nol yng Nghymru ar ol wythnos yn CR, Cyfnewid pau'r onen am bau'r dderwen yn Nyffryn Clwyd, a'r sycmorawdd yng Nghwm Tawe!)

Praha (20160525)

Obry byd lwybrau ebrwydd
Â blas ar ddathlu penblwydd;
Cam hwyliog ddiw'r cymylau,
Niwl yw byd o'n nefol bau.
Bwyrw'r bau, a chof i'w awen
Eto'i ganu dyddi ddi!
Ufuddhau i freiniau'r fro,
Phanu gwres yr hen groeso.
Crwydro drwy Strizkov, rhodiwn;
Trysor jawr yw'r lle hwn,
Fynys, "lawr yn awr â ni
I fynwes Parc Podvinn;
Ar y waun mae'r llwybrau'n llw,
Nad skáloval nid oes ceulu'
Nefoedd wen dros ben yr yw bod
Yng nghochni rhesi'r rhosod.
Dathlu nawdd aderyn du
Sacwrn, talwrn y teulu.
Orig eili gwedi gudd
Paradwys pau'r ehedydd;
Awr ym moes yr adar mân -
Rhu'r oesoedd ger yr jasan.
Dewis her is y rhosyn -
Tila fardd, a chwarrdd y chwyn.
Hel epil cynta'r lipa
Lwythog, rhodd hwyliog rhyddha.
Gwledda, Anicka a'i naan,
Poeth, dewis doeth Pacistan!
Holi ffel am Eliffas,
A'r beirdd, a'u Llyfrau Barddas,
Gan y saint mae hawffraint hedd,
Curwr cwmnï: mwyn amnydd!
Â'r hafod mewn dwylo da,
Trown yn ol i gol Gwalia;
Mae ranu trem yr onen
Yma'i aros, wythos wen.

(Ym Mhrraha ar gyfer penblwydd B; dobrý den = dydd da; Strizkov = ardal Praha lle mae B&D yn byw. Javor = sycmorwydden; Podvinní = ardal is Strizkov; Nad skáloval = uwch y glogwyn; Pau'r ehedydd = Skrivan, pentre lle mae bwthyn B&D; Lipa = pisgwydden / "lime".)

YnYGlâs (20160524)

Rhedeg ym mhau'r bynniau bras yw gwynfe'r
Bore is Pen Bann;
Pau'r patrwm pur o'n cwmpas:
Arfaeth rhagluniaeth mewn glâs.

(Rhedeg ar fore BENDIGEDIG!)

Babička (20160523)

Eiliad anwyl aduno - munudau
Da'r gorau'n blaguro;
Nejhezci den, Bozenol
Awydd y dydd, beunydd bot!
(Penblwydd B yn 80 oed!)

ColMam (20160520)

Eryd acw cyn deced - â lloffion
Acenion ei càned;
Plenty'n bach o'r afiach rhed
I orffwys ar ei harffed.
(Yn GG â llu o luniau'r teulu ar y walydd.)

YBedol (20160518)

Pa hynt, fy nghyhoeddiad cyntaf? Pylu'r
Paladr - gwep 'dat' trista!
Llais hylt o golli sillaf
Esgyll gor-frwd, cwnd y cnaf!
(Englyn cyntaf - ac olaf - yn y Bedol â sillaf yn eisiau a'r paladr yn wan! Ofnadwy!)

TZ1 (20160517)

Hwyl ym hyn tywydd pïeth cyn - ond tyrfedd
Deiweidd byd ddi-dyn;
Heulwen yw gwerth pob perthyn:
Hinddar nod ar ddod yn ddyn.

Gwyn ers y dydd y ganed - i Spidi,
Twm Dwli, mae'n dyled;
Un anwyl, wyt cyn hyned?
Had cariad am eiliad med!

(T yn Z1 ac yn adolygu, pwr dabl)

YDaithAdref (20160516)

Porth y crwydr yn 'di Llundain,
Cân efnion acenion cain;
Oriau wedi'r awyren
I Walia wen draw ar dren!
(Teithio nol i GG drwy Heathrow a Llundain.)

Canmore (20160512)

Hoff drysor cewri'r goror - yw tir chwedl
Y tair chwaer â'u hallor
Odidog, garegog gor
Manau cain meinl Canmore.

(Yn Canmore ger Banff yn y Rockies. Hyfryd.)

EauClaire (20160511)

Eiliadau'r afon lydan yw byw
Gariâu'r Bwa Ariann;
Oer hirreth doeau'r eira'n
Wyrddni a glesni'r Dwr Glân.

(Yng Nghalgarí, rhedeg ger yr afon "Bwa", a'i llw'n newid o arian yr haul, i wyRDD - o achos yr eira - i las.)

Symll (20160511)

Ym mynd di-baid ffyliaid mewn ffair - hawliaf
Heulwen newid cywair;
O godfian o'r gadair
Y daw'r gân wrtho'rri gwair!


(Hiraethu am fywyd syml, nid hyrtwch byd busnes, a meddwl am dorir gwair nos Sul diwethaf)

BryniauClwyd (20160509)

Gerllaw mae bryniau awydd - mi reda'
'Mharadwys bob twydd;
Am olwg dros y moelyd;
Lathenaidd i'f enaid rhydd.

(Bore bendigedig yn yffryn Clwyd.)

YFera (20160508)



Ynddi mae'r hwyf a'r hindda, ag acen
Y gwcv a dreiddia;
Ceinder Ystalyfera,
Orau dith ar fore da.

(Bore twym bendigedig yng NghwmTawe.)

Melyn (20160507)

Grwydryn, gwel mai Melyn yw min mis Mai,
Rhagair yw'r aur egin;
Eu chwys fel persawrus win,
Ar waith mae blodau'r eithin.

(Rhedeg yn GG â'r eithin yn eu gogoniant!)

YBoreWedyn (20160506)

Golwg wych trwy ddrych sydd rhaid! Y chwildro
'Di dyfod, â'r defaid
Clân dros gamfa wen f'enaidd
I'r bore - ond ble mae'r Blaid?

(Y Blaid yn dal tir - ond yn methu eto â thori tir newydd.)

DuAGwyn (20160506)

O grothau gwlanog Rhuthun - y daw gwrth
Adeg aur pob blwyddyn;
Dol gŵn ac awdl y gwanwyn
Adeg aur y du a gwyn.

(Yr wyn ar gaeau Parc Y Castell.)

Wedi'rClaw (20160503)

Chwym enyd ei chymwynas - daw'r bore
Â'i gwynfe yn ganfas
Mor hardd, corona barddas;
Acw wybren loyw las!

(Heulwen o'r diwedd.)

Oslo (20160503)

Mae rhodio'n gymeradwy - momentwm
Try hirfwm yn arlwy
O furum, does mynu mwy
Yn awr na gwynfyd Norwy.

(Yn Oslo am gyfarfod tônau.)

BogailLediBagot (20160502)

Yn glwm wyf dan y glaw mân,
Yn celu rhag y calan;
Dyma droi, a mynd am dro
A cheisiaf fryn uwch Esso.


Swydd reit rwydd yw mynd drot drot
I begwn Ledi Bagot.
Go lew, iôn Rhewl a'r alaw
Ddidor daw o gleisio'r glaw.
Y sawl â'u mawl i sement -
Tai'r werin ym min mynwent

At erwau tân y teirw'n
Ddychrynlyd symud a swin,
Ar hyn sy'n gwirwot'i enaid:
Llun llwybr dros gaeau'n llawn llaid ...
I'r gwair, cael gair 'da'r gored;
'Clyw, daw oed i'r dilyw, dwed?'

Yn estyn dros y castell,
Wyneb haul ein purdan pell!
Rhedaf ato'n llon fy llef,
O'm mwydro trof am adref!

(Rhedeg i Rewl a nol.)

Neges (20160501)



Ar neges o Fethesda -
Hedd yw cydd o ddywydd da -
I encil dyffryn Ffranco
Muriau â'u breiniau o'n bron.

Awel oer o'r Ole Wen
A rhagair tinc yr Ogwen.
Gweld trysor allor yr iâl:
Acw mae hud Cwm Idwal.

Âr diwyd o'r byd i'bau'r
Dewr ar fregus Lyderaau;
A dewrion, dynion ar dân
I droi hafod yn Dryfan.

Ym mwrllwm cadw cwmni,
Cadw'n nes yw'n hanes ni
Am neges o Fethesda:
Siwrnai hynod, diwrnod da.

(Cerdded o Fethesda trwy Cwm Ffranco i Gwm Idwal a nol - deuddeg milltir a haner.)

Gweld (20160501)

Mor anisgwyl gweled hwyliau gwynion
Gogoniant fel gwenau
Cu nefoedd un, anwyl ddau,
Am eiliad trwy'r cymylau.

(Rhedeg, meddwl a chofio.)

Llyr (20160429)

I ddrillio duwdod Ceidwadwyr, UKIP
Âi acen anifyr,
Wylfain egwan Lafur;
Llyw'n cyrch, ein llewyrch, yw Llyr!

(Diolch am boster y blaid - tu allan yn ei holl ogoniant erbyn hyn!)

PaBethSy'nBod? (20160428)

Haner awr, â gwyn yr eira'n cânu
Cyni'r duwch aflan;
Daw hiraeth am oed arian:
Hel mêl yn niliau'r plu mân.

(Eira ar fryniau Clwyd - rhedeg i'w gyfarfod y bore 'ma.)

Wallingford (20160427)

Cefnog, ddonog Wallingford wen - nefyn
Ar Dafwys fel ffuglen;
Gwyrriad uwch ger Rhydychen:
Trem ar Gaersalem, ai sen?

(Yn HR Wallingford, ym merfedd Toriaidd Lloegr.)

TiFriallen (20160427)

Un efydd llonydd ei llen fel duwies
Flodeuog, â'i hawen
Gwngalcha, llon rhyfion
Ufudd aur, rhyfedd o wên.

(Briallu yn y cae ger yr afon.)

K2OK (20160425)

I bau'r coesau â'u tro cyson aeth hon
Â thân y gwyr gwirion!
'Da'r wawr am deiraw dirion
Ar ei thaith i'r marathon!

(K, T, Ch, E and fly'n redeg haner marathon Caerdydd eleni.)

Cyrano (20160424)

Dyfal un, prydydd diflino'n gori
Ar gariad a geiro.
Fel purdeb ei wyneb o;
Serenai'r hen Cyrano.

(Mynd i weld Cyrano de Bergerac yn Theatr Clwyd neithiwr. Diddorol, gyda'r Cymraeg a'r Saesneg yn gymysg.)

Addrffnu (20160423)

Gwir bechod, ai aur grebachu elw'r
Mawrion olew hyny
Try haelioni cwmni cu
Trwy ofn yn gancr addrffnu?

(Addrffnu yn y gwaith - etol)

Afantec (20160423)

Awen goll a dry'n gyllell - cyflymach,
A llonach fy llinell;
Llir' union ty rheipio'n well;
Llwyddiant prynu allweddell!

(Prynu allweddell fach Bluetooth i'r ffon, sy'n gweithio'n WYCHI)

YnYCaе (20160422)

Ger y llwyn, hafn wyn di-nam - per encil
Parth y prancwyr lletgam;
Rhag erlid ânt ar garlam
Nol i loches mynwes marn.


(Yr wyn wrthi'n ddiwyd y bore ' mai)

Ymwybod (20160421)

Crefu mae'r stormydd cryfion - I rugo
Rigau'u dyfroedd beision;
Doeth ofid lliid eithafon;
Call yw deall dyfal don!

(Prosiect am eithafon yn y môr - ond mewn dwr bas - or enw "ymwybod")

Lynbgy (20160420)



Oes croeso ar wyneb allbylgedd
Gwlad eiddgar, gwlad teiblyg?
Cymdeithas liw'n llawn diwyg;
Awyr las â gras tre'r grug.

(Yn Lynbgy - lwngbw - yn Nenmarc am gyfarfod. Ystyr yr enw yw "tre'r grug"! Lle hyfydd, aeddfed - yn codi cywilydd arnai am gyflwr y DU a Chymru.)

Copenhagen (20160417)

Yn yr hwyr, â'r awyren i fêr
Pau'r forforwyn lawen;
Nwyf lys Tivoli wen,
Egwyf yng Nghopenhagen.

(Ar y ffordd i Copenhagen - cyfarfod am donau'r môr.)

BoreSul (20160417)

Bore brau â'r erwau'n arian - eli'r
Heulwen treiddia'i bobman;
Cwpled caeth, lluniau y llan
A nefoedd Tecwyn Ifan.

(Bore hyfryd - eira, cesair, heulwen, englyn a phregeth hwylys gan TI am daflu'r bara i'r moroedd!)

YClwyd (20160419)

Clychau'r pant, hen-nodiant, nwyd y dyfriol
Rhwng dwyfnad mîd d'abwyd;
Ac anghaniad îradwyr
D'afon arian, cludfan Clwyd.

(Rhedeg i Rhewl a nol, 7.2 milltir yn ol Stravall!)

TônauDwrBas (20160416)

Rhith anwyl o berthynas - mai asio
Terfyn berche sydd addas;
Dal cyfrinachau'r dulas
Er gwyro i ben brigau'r bas.

(Gweithio ar briodweddau tônau mewn dwr bas.)

BVB (20160415)

O lanerch y melynion i larpio
Lerpwl, O'r kop ffyddlon
Cynig gwych cân y Cochion
A bri taro'r tair o'r bron!

(Lerpwl yn maeddu Dortmund mewn diawl o gêm neithiwr!)

Dathlu'nParc (20160414)

Cynig bendigedig yw arllwg
Yr elyrch; gwaith ydwy'r
Cofrestr i nodi'r cyfryw
O'u hymdrech; cynffon chwe chyw!

(Yr elyrch yn y parc wedi cael newyddion da!)

Toreth (20160413)

Paradwys o gydbwysedd hardd i weld
Cydraddoldeb rhyfedd
Bod hyfrydaidd hafalidd hedd
Oed i ganu'n digonedd!


(Darllen "Abundance" gan Annie Dillard.)

YrEithin (20160412)

Llwyni ffl yn lloni ffin - aur drysor
O agor yr egin;
Gwerinaidd, melynaudd min;
Distaw dith rhith yr eithin.

(Gogoniant yr eithin wrth rhedeg y bore 'ma.)

LlynYFanFawr (20160411)



Mentraf yno'i hawlio hedd
Cyffes neges unigedd:
I'r taw a faga'r awydd
Yng ngorfoledd diwedd dydd.

Nodi gwersi'r waun gorsog,
Pau'r creigiau a'r nentydd crog,
Enyd aur gerllaw'r dyfnderoedd,
A'r gwyl, a'i awel ar goedd;

Neb, namyn y llyn a'r illi!
I wrando'r canu grwndi.
Ban, rhith huan a Thawe
IDnos, a gwelaf y nef.

IDawellWylbrau (20160410)

O badera'n heulfan Elfed - a haul
Tôn Sgwâr Wilton, rhodded
I ni foes y groes yn gred,
A gair y Cwr i'n gwared.

(Tôn Wilton Square, geiriâu Elfed a hanes Megan Watts Hughes. Dad wedi clywed Elfed yn pregrethu ym Mhantteg.)

Francesco (20160410)

Magu rheswm, goroesi - Guidolin
Cyda'i les yn codi
Tim i ddimchwel sêr Chelsea;
Eidalw ein harwr ni.

(Curo Chelsea am y tro cyntaf yn yr uwchgynghair.)

Sigi (20160410)

Un dyn gwâr ydyw'n gwron-golau drud
Gwlad yr Iâ tra chyson;
Twr 'di Cyflî Sjaurdsson:
Ol gras ym myd y bel gron.

(Y Swans yn ddiogel, gan gymryd mai Gwiffi Sigurdson, ag acen ar yr "wrd" yw'r anghaniad.)

Eire (20160409)

Am Iedu'u sain melodaidd i 'Werddon
Fel gwawr hardd Gymreigaidd:
Bri gwyn o wobrau ac aidd
O gal talw'n Ban Geltaidd.

(Cytgan yn hwyddiant mawr.)

Costa (20160408)

Awr rydd a gwinllan rhoddwyd i eistedd
Yng Nghosta am arlwy
Di-ebost. Yniad abwyd
Mwydro clên cymudwyr Clwyd.

(Cryw da yn cael coffi yddoe.)

Llwybr-Integryn (20160403)

Ar fwydo'r cyfrifiadur, hafaliad
Gafaelodd fel gswlyd;
Ol sigal hudel osgliadur
Mynodd barch harmonaidd bur.

(T yn simiwleiddio osgliadur harmonaidd a methu cael yr "ailbwysyo" i weithio!)

YnLlwydrhew (20160331)

Os ofnus, chwaethus, tu chwith - daw rhediad
I'r adwylwm mendith
Cwrydro caeau'r bryniau brith
Ar llwydro rhew, fore lledrith.

TaTaTata (20160330)

O drai'n ninas Mumbai bur hyd heblul
Port Talbot a gwewy'r
Oed wylfain di-lafur.
Meistri'r Tata'n difan dur.

(Gwaith dur Port Talbot ar werth - es i yno ddwyvath am gyfnewllad ym 1987. Lle fydden i nawr?)

YnYWaun (20160330)

Eiliad i'r anisgwyladwy'n y waun,
Enyd amhrisiadwy'n
Canfod hafod 'da'r hyflwyn;
Munud i'w rhanu 'da'r wyn.

HelWYau (20160328)

Awr archwilio'n llon mewn llwynyn yw pos
Gwyl y Pasg yn Rhuthun;
Ar wefr decaf, olaf un;
Haul mil o wyau melyn!

(S,L ac A drws nesaf yn methu'n lân a chanfod yr wyau melyn.)

Awen (20160328)

Unsil er llenwi llinell - un geiryn
yn goron; i' nghymell
Daeth symiad am ganiad gwel
Can eco traw y gnozell.

(Rhedeg i gân y gnozell.)

Fflach (20160328)

Er hybu'r gyru gorau, rhaid gwared
Â gyru dros ffiniau;
Er gwella gwaetha'r gwaliau,
Bendith, rhagrith camerau?

(Cael llythr cas am oryru!)

YPasg (20160326)

Eiliadau'r wyl ffaeledig- gwyf gwewyr
Ein brodyr briwedig;
Chwys yr anghenus yng nghig
A gwaed yr Oen Pasgedig.

(Y Pasg ac anghyfiawnderau'r byd)

J-PS (20160325)

Nawdd yw cof lonydd cyfle'h agor rhin
Gwironedd â' nghamre;
Ond sut rhodio 'nghoed Satre
I'm nod o fod fel efe?

(Darllen adolygiad o waith Satre.)

Glasson (20160324)

Cân y crehyrod cynar a Glason
Eglwysig, lletygar;
Melys oed ar gamlas wâr,
I rddio'm myd yr adar.

(Cysgu yn Glason ger Caerhirfryn.)

LlwybrYWaliau (20160324)

Ym meini hedd mae mwynhau - ym meili
Oedi'r teg eiliadau;
Ar lwybr rhydd y waliau brau
Â'i morio'i rhwng y muriau.

(Y llwybr rhwng waliau Castell Rhuthun yn ail-agor ar ol blynyddoedd.)

MaedduVilla (20160322)

Mentwrch, crefwch y crys - bai herian
Villa'n orofalus;
Cysur, frodyr, daw ar frys
O hawlio'r triphwynt melys.

(Yr Elyrch yn curo Aston Villa, ond yn ofnus yn eu chwarae.)

Palu (20160320)

Â chân mae dechrau chwynu - her cyfnod
Â'r cefn wedi plygu!
O fyfyrfa'r ddaear ddu
Y gwel apeli y palu.

(Palu yn GG.)

Gweld (20160320)

Yn gynar, tan y Daren un bore'n
Y baruq, tan llwydlen
O niwl, edrychid i'r nen,
Gwelid i olid heulwen.

(Rhedeg eto, ar llwydrew a'r ffogon yn drwch wrth odre'r Daren, ond y ty eisioes yn yr haul.)

Piod (20160319)

Hynod gweld chwe pioden - côr cw'n
Trawco'u cân mewn coeden;
Aur gynnor dauilw'r gannen;
Brait yw cyd-gecru ar bren!

(Rhedeg a chôr piod mewn coeden yn aros amdanaf ger y Tawe.)

Bananas! (20160316)

Bwa ffrwythlon yw hona – paradwys
Yw bryd a grymanâ;
Nid yst'rh un o grydau'r ha'
Unioned â'm manafal
(Er clod i'r melynion.)

SiwgrASbeis (20160313)

Hen ing i wr mewn angen - hen ludded
Âr wledd wedi gorffen;
Rhof benyd i'r hyfryd wên
A droes hen does yn deisen!

(A. drws nesaf yn dod â theisen!)

CraigAdwyWynt (20160312)

Af yn dawel o helynt
Y dorf i Craig Adwy Wynt,
A gafaal byd atgofion
Tir Adda ger bwa'r bont,
Ag awch gweld fferm Craig Uchaf -
Nef yw'r bwthyn, ben bryn braf.
Gwlwg cilr tir y teras
I gael hwe, a gweld Pwlliglas.
Na, nid oes unman glanach -
Awel fwyn a'r llii fach.

(Mynd i redeg.)

Twll (20160312)

Taw sôn - Duw, Duw - o diar - twyll ai toll
Yw y tyllog deiar?
O glaf, rhaid bod yn glyfar:
Am sbort, does gen i ddim sbâr!

(Twll yn nheiar y CB.)

Gwynfyd (20160311)

Hel y wawr, a'r haul ar lwyn, un bore'n
Hwyllo'r barug addfwyn;
Megis perlau sipiau swyn
Yw geni serchog wanwyn.


(Rhedeg a gobaiith fod y gwanwyn yn dod; meddwl am y gerdd o'r un enw gan Crwys.)

Canêris (20160310)

Adar mân â'u cân mewn cyni, yn awr
Gwŷr Norwich sy'n poeni;
O'u huffern ddofn rhaid ofni:
Fel gwichian moch, croch eu cri.

(Norwich yn colli i'r Swans ddydd Sadwrn, a Twm a fi yno!)

Godre'rCraig (20160304)



Ei olau yw gwerth perthyn - yn y parth
Mae porthi dihiryn;
Gwên y cwm yw gwin cymun:
Cwawr yno sy'n deffro dyn.

(Yn GG ar fore bendigedig!)

Grym (20160229)

Dryllia dyllau o drallod - ôl awgrym
O lygredd a frewdod;
Pa werth nerth fel unig nod?
Dim, ond llygru diamod.

(Meddwl am y dywediad fod grym yn llygru, a grym diamod yn llygru'n ddiamed.)

YBardd (20160226)

Hen ddigon byw'm mrawddegau - y gorau'n
Blaguro 'da'r blodau;
Trin bryd yr ystyron brau:
Anwesaf, iraf eiriau.

(Meddwl am chwarae â geiriau.)

Y Flwyddyn (20160201-22)

Ar ein lledred daw'n dued awr - ar goll
O'r gwylt tan yr hwyrwawr;
Diawl o wynt a llid o wlaw:
Rhagair blin yw hin lonawr.

Dyma domawg, dyma dymor o wynt,
A chwani t bwrw angori!
Dyma wlaw mewn lli' di-dor;
Hyfryd yw tywydd Chwefror!

Âi' olynnydd eto 'leni yw Mawrth
A meirch ar y weilgi;
Hyder yw i dda'u neu dri
Ag ysbryd diwyd Dewi.

Da ddiben crafu penill o weld swyn
Gwyn wanwyn yn enill;
Gwyned â soned pob sill
Ar awen wybren Ebrill.

Hunanieth rhemp, llanw a thrai moroedd
Cymeriad mewn buddai;
Duw a deall efallai
Yw'n pader ym mwyrder Mai.

Dyma fyw Duw a dewin - dyma flas
Dilliau gras siwgr eisin;
Llond ffiol o wyrthiol win:
Dyma hafod Mehfin.

Troi tudalen Gorffena'f yn heulwen
Hwyliau godidocaf;
Hedd oriau dyddiau araf
Cariadon, breuddwydion braf.

Y mae Awst yn ymestyn ei afael
Yn gof gwyliau cyfun;
Dan wybren tymor plentyn
Mae cywydd i dywydd dyn.

Âr hwyr, mae'n dechrau oeri - er oered,
Cynhased â'r nosi'n
Fêl abwyd, a'n haelwyd ni'n
Hau ym mywydau Meddi.

Dônt fel ton yn llon eu llef - aeth yr haf,
Yn ei thro, am adref.
Breuddwydion yn nofio'n nef
Rhaeadrau daiil yr hydref.

Dwrn y dŵr fry dry'n dyrffedd - â'i glochdar
Daw traw'r gwlaw'n dddiddiwedd;
Cri concerto gwlychog wledd.
Tewch, tewch, daranau Tachwedd.

Irwn feudag, fe ddaw Rhagfyr â chân
Ein chwenych am ystyr,
Yn anog trugarog wŷr:
A dyr cwys, medir cysur.

NosWener (20160219)

Cofio, a dathlu'r cyfan - mi fethom
Faeth y llestri arian;
Llon pob noson bara naan,
Tro gwyn 'di mynd am Indian.

(Mynd am Indian 'da R ac E.)

YGlecFawr (20160215)

Sen y boi 'cw sy'n beicio 'di eiliad
O hrvngl wrth grwydro;
Os trwsgl a phoenus y tro,
Ei gamp: gwenu wrth gwympo!
(HuwMc yn syrthio o'i feic!)

TonnauG (20160213)

O ger ffiniau'r gorffennol daw eiliad
Ollion chwyldroadol
Corchest tonnau disgyrchol
Anelwig, unig eu hól.

(Synhwyro tonnau disgyrchol am y tro cyntaf.)

SwparDwpar (20160207)

Arswydo 'rol dŵlur sydyn a'n gwylt
Yn y gollled wedyn;
Urddas ei gymdeithas gun
Yw ein dyled i Alun.

(Cyngerdd i gofio Alun neithiwr.)

Anwn (20160203)

Âr meidrol mewn gorfoledd – er hyny
Ga'i ranu'r gwirionedd?
Gwerthfawrogrwn Anwn hedd
Ein Daear erbyn diwedd.

(All-ddarllen y Mabinogion. Fel â phopeth mae yna ystyr ehangach.)

YGored (20160131)



Dyma gyngerdd wrth gerdded – oed hapus
Âr tipiau i glywed
Penillion yr afon; rhed
Y geiriau dros y gored.

(Cerdded yn sŵn y Tawe wedi'r glaw mawr.)

BwysYSied (20160125)



Osgo hawdd a gosgeiddig i fanau'r
Tyrbinâu arbenig;
Seiniau'r waun a glesni'r wig
Ar y bryn ger y Brenig.

(Mynd am dro i lle bu sied y gwarchodwyr tân gynt ar y bryn ger Llyn Brenig; atgofion melys iawn; melynau gwnt plau'r lle erbyn hyn!)

CB (20160124)



Gwynfyd yw caru deg gér - rhyffeddod
Hoff undod uwch ffender;
Mynd a byw pob muned bér:
Da yw bod, diws Claud Butler.

(Tacluso'r hen feic – nygards newydd duon – a'r CB yn edrych yn dlws dros ben.)

Cysawd (20160122)

Am eiliad drwy'r cymylau – rhyffedded
Oedd gweled eu golau;
Un bore 'da'r planedau
Yn rhes o Fercher i lau.

(Y planedau sydd â'u henwau yn nyddiau'r wythnos i gyd i'w gweld mewn rhes rhyw awr cyn y wawr yn y de.)

Cwyp (20160117)

Distadl dwndwr di-fwriad – a gwrthun
Bloedd eilun arddeliad;
Lloerig wael yn colli'r gad,
Sut ing fydd darostyngiad?

(Yr Elyrch mewn cawl.)

YrAwr (20160117)

Gafael anwes uwch-gyflenwad o'r tic
I'r toc, diwedd eiliad;
Codi gwyr i'r enyd rhad,
A-men awdl mewn anadliad.

(Grwando ar gerddediad y cloc yn y cwrdd y bore 'ma; mor fregus.)

JHB (20160113)

Newid moleciwl yn ion yw gwin
Gwahanu'r electron;
Anian sbectra newydd sbon
Bu enw J. H. Beynon.

(Ysgrifenu cofeb i un o'm arolygyr Ph. D.)

NosGalan (20160101)

Unig swydd diwedd blwyddyn – rhoi gobaiith
Ar wailh. Yma'n Rhuthun,
Claddu'n poen, cau'n doeau'n dynn
Ag awch yr hen ail-gychwyn.

DiweddDathlu (20160101)

Tu draw i'r Nadolig Llawen a min
Dymuniad ar garden;
Heddiw hawdd rhoi'r nefeodd wen
I gadw gyda'r goeden.

Cynes anwes o enyn - uno gwyn
Â gwên ar ben blwyddyn;
Gwyn pob gwên a nerth perthyn
Yn glynu fy nheulu'n un.